# COFFADWRIAETH

AM

# JOHN DAVIES,

## O GRAI;

*SWYDD FRECHEINIOG.*

YR HWN,

CYN DYCHWELYD O'I DAITH,

*A FU FARW YN YR HELD, YN AGOS I*

## Gerrighowell;

*Awst* 14*eg*. 1828. *Yn* 62 *o'i Oed*.

Ac a Gladdwyd wrth Gapel Crai.

Gweddiodd y Brawd Watkin Edward; a Phregethodd y Parch. Evan Harris, ar yr achlysur, oddiar *Heb*. 12. 1.

GAN WILLIAM WILLIAMS, TALGARTH.

*Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig*. SOL.
*Da, was da a ffyddlon*. CRIST.

TALGARTH:
*ARGRAFFWYD, GAN E. HUGHES.*
1829.

## *MARWNAD, &c.*

TRWM yw'r galar, trist yw'r newydd,
 Sydd yn tramwy yma thraw;
Dros y bryniau ar hyd pantau,
 Am weithredoedd brenin braw;
Colli Brodyr a Chyfeillion,
 Colli Tadau, colli Gwŷr,
A fu'n gwiliaw megis Habac—,
 'N ffyddlon, effro, ar y mûr.

2 Côf yw genyf am *Rees Davies**,
 Enwog, dduwiol, yn ddible,
*William Harris*† anwyl, tyner,
 Flaenodd fry i'r sanctaidd le;
*Jenkin Morgan* § Ystradfellte,
 'Hedodd hefyd attynt hwy
Sy'n cyd-ganu'r anthem hyfryd,
 Sef haeddianau marwol glwy.

---

* *O blwyf Talgarth, yr hwn a ymadawodd a'r byd Ion.* 27, 1823. *yn y* 73 *o'i oed, wedi bod yn Pregethu'r Efengyl* 53 *o flynyddau yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, ac a gladdwydd wrth Addoldŷ Talgarth.*

† *O Drefecca, yr hwn a fu yn Pregethu yr efengyl yn mhlith y brodyr uchod, dros* 28 *o flynyddoedd, a ymadawodd a'r byd Hydref* 7, 1825. *yn* 47 *o'i oed, ac a gladdwyd wyth ochor y brawd uchod, lle maent yn gorphwys oddiwrth eu llafur,*

§ *Yr hwn a ymadawodd a'r byd Iônawr* 16, 1826, *yn y* 56 *o'i oed, wedi bod yn Pregethu yr efengyl lawer o flynyddau; ac a gladdwyd wrth Eglwys y plwyf, lle mae yn gorphwys.*

3 Daeth y newydd o'r dieithraf
Attaf, am waith angau dû,
'N cludaw yr ysgubau adref,
Heb i'm feddwl, ar bob tu;
Torri ddoe a thorri heddyw,
'R wythnos hyn, a'r wythnos draw,
O am i ni fod yn barod,
Erbyn gwys, o'r farn a ddaw

4 Am *John Davies* daeth y newydd,
Ei fod wedi cael y bla'n
O'r daeardŷ, a'r carchardŷ,
I mewn i'r baradwys lân;
Aml bu ef yn gweddio,
'N effro ac yn fywiog, *cawn*,
I'w Dad nefol attal cystudd,
Rhag bod iddo yn faith iawn.

5 A dieithrach i'm na hynny,
Oedd am *Evans* anwyl cu,
Ei fod wedi 'hedeg ymaith,
O'r ddae'r hon i'r nefoedd fry.
Pa'm Angylion a Seraphiaid,
Na b'asech yn rhoi amnaid i'n,
Eich bod yn myn'd a'n tadau adref
I Gaersalem Sion fryn.

6 Os o'ch blaen i huno'r aethant,
Na rwgnechwch ddim am hyn,
B'reuach darfu iddynt godi,
Mwy deithiasant yn y glyn;
Codi, gweithio, a llafurio,
'N effro ac yn fywiog iawn,
Yn y winllan, dros eu Harglwydd,
O foreu-ddydd hyd brydnhawn.

7 Deffrowch, codwch, hefyd gweithiwch
Eich diwrnod ar y ma's,
Na ddig'lonwch, ymwrolwch,
Gyd â gweinidogaeth gras;

Pan dêl amser, pan dêl tymmor,
Eich cadwynau ânt yn rhydd,
Cewch gyd-foli fyth heb dewi,
Gyd â hwy y'ngolau'r dydd.

8 Os rhaid tewi, heb ymholi,
Pa'm fel hyn, neu pa'm fel draw,
Caniatewch, na wrthddadleuwch,
I ni ddweud am waith ei law;
Cododd weithwyr i'w ei winllan,
Hŷ calonnog tyner mwyn,
A choleddwyr, a meithriawyr,
Y mammogion, a'r bach ŵyn.

Bugail ffyddlon gwiliadwrus,
Oedd JOHN DAVIES yn y byd;
Bugail effro, da, profiadol,
Duwiol, tadol, oedd o hyd;
Nid am enw, parch, nac elw,
Nac anrhydedd, mwy na chlod,
Ond o gariad, at a'u piodd,
Ac a'u carodd cyn eu bod.

10 Eglwys *Crai*, *Defynnog* hefyd,
*Pentre'r Felin* gyd â hyn,
A *Threcastell* fawr yn *Llywel*,
Dowch i gyd alaru'n llyn.
Bu mewn De a Gogledd hefyd,
Gyd â'i frodyr ar y ma's,
Yn cyhoeddi'r go'dd y werin,
Anchwiliadwy olud gras.

11 Gwnaeth ei Arglwydd ei anrhegu
A dwy dalent oll yn llawn,
'Nillodd yntau ddwy'n ychwaneg,
Attynt yma yn hael iawn;
Nid da doniol, ond da duwiol,
A da ffyddlon sydd ar lawr,
Gan y bendigedig Iesu,
O fewn corph y memrwn mawr.

12 Nid hyawdledd mawr *Sosthenes*,
: Na dysgeidiaeth *Plato*'r bron,
Ond rhyw fflam o dân ennynwyd,
. Oedd yn llechu dan ei fron;
Hwn oedd gwraidd ffyddlondeb IOAN,
Tra bu yma yn y byd,
Gyd â gwaith ei Arglwydd grasol,
'Rhwn yn gwbl aeth a'i fryd.

13 Ffyddlon dad, a ffyddlon briod,
Ffyddlon gyfaill, ffyddlon frawd,
A ffyddlondeb maith diflino,
Yma'n hollol ynddo gaw'd;
Ac mi glywa'i y gorchymyn,
Yn cyhoeddi'n groch i ma's,
Am ffyddlondeb di-ymattal,
Nes ymdagu ag angau glâs.

14 Nid *am* eu ffyddlondeb eilwaith,
Y coronir neb rhyw un,
(Ac nid *heb* ffyddlondeb hefyd,)
'N ymddangosiad Mab y dyn;
Haeddiant Crist a'i aberth gwaedlyd,
A'i gyfiawnder perffaith ef,
Sy'n rhoi hawl a meddiant hefyd,
I drigfanau pur y nef.

15 O ras y cofiwyd am JOHN DAVIES,
Draw yn nhrag'wyddoldeb pell,
O ras y galwyd ef mewn amser,
I rwym y cyfammod gwell;
A gwnaed bellach bawb ddistewi
Am wendidau maes y gwa'd,
Y mae heddyw wedi cyraedd
Perffaith, hollol, wir iachad.

16 *Chwech o ddegau, dwy*'n ychwaneg,
Gwir oed IOAN ydoedd hyn;
Tri o ddegau saith wrth hynny,
Bu E'n teithiaw yn y glyn;

O'r rhai hyn bu *un-ar-bymtheg*,
Yn gyhoeddus gyd â'r gwaith;
Ond mae heddyw wedi gorphen,
'R ochor draw ar ben ei daith.

17 Sefyll wnaeth y tro diweddaf,
Sul yr ail, o *Awst* oedd hwn,
Draw ym *Mhilpit*, tre *Crickhw'el*,
Man lle daeth i ben ei rwn;
A chyn Sabboth pen yr wythnos,
'Mado wnaeth a'r babell hon,
At y teulu sy'n derchafu,
Crist eu Harglwydd bawb o'r bron.

18 Yn y Flwyddyn oed ein Harglwydd,
*Deunaw cant a phedwar saith*,
*Awst* y *nawfed pump* 'n chwaneg,
Y cyrhaeddodd ben ei daith;
Yr oedd gofal maith rhagluniaeth,
'M dano'n gyson yn y byd,
Nes ei daro gan yr angeu,
Sef yw hyny'r Parlys mud.

19 Ar foreu-ddydd darfu'm Iesu,
Anfon ei gerbydau lawr,
I ddwyn IOAN DAFYDD adre,
At y llu aneirif mawr;
Sydd yn nofio mewn dyfnderoedd,
Rhyfeddodau mawr y gwa'd,
Goruchafiaeth pen Calfaria,
Rhîn yr Iachawdwriaeth râd.

20 Bendith *Jacob* a ddisgyno,
Lawr ar deulu'r *Held* o'r bron,
*Mr. Herbert* a'i blant hefyd,
Tra b'ont ar y ddaear hon;
Tyner, tadol, tirion, grasol,
Fuont i JOHN DAVIES ŵr,
Nes yn gwbl iddo daro,
Ar ymylau oer y dŵ'r.

21 Fe ddaeth dydd ei Gladdedigaeth,
Obry yn y ddaear ddû ;
Ac er amser *, gwres a phellder †,
Mawr odiaethol oedd y llu !
'Roedd cyfeillion Tre' *Crickh'wel*,
*Aberhonddu* oll yn llyn,
Ardalwyr *Crai*, *Defynog* hefyd,
Llawer eraill gyd â hyn ‡,

22 Wrth Gapel *Crai* y rhoddwydd Ioan,
Lawr i orwedd yn y bedd,
Nes udganu o'r Arch-angel,
I' wahodd i'r drag'wyddol wledd,
Mwy ni's clywn ei lais yn galw,
Ar ein hol i ddo'd i ma's,
O Sodoma boethlyd, danllydd,
I ymwneud a golud gras.

23 Gorphen gweithio, gorphen teithio,
'Fe orphenodd bechu'n lan,
Diangc wnaeth o'r gwae a'r gofid,
Maes o sŵn y mwg a'r tan ;
Heddyw y mae yn dyrchafu,
Angau'm Iesu ar y bryn,
Y dw'r a'r gwaed a redodd allan,
I olchi'r Ethiop dû yn wyn.

24 Un yw'r gân, ac un yw'r anthem,
Un yw'r gwrthrych, un yw'r gwaith,
Un yw'r drigfa, hardd breswylfa,
Fry yn yr uchelder maith ;
Iddo Ef yw'r iaith sydd yno,
Gan y dyrfa bawb o'r bron,

---

* *Cynhauaf*, † *Pum milldir ar hugain.*

‡ *Sef rhai o'r Bwlch, Llangors, Talgarth, Pencelli, Aberbrân, Trallwm, Pentre'rfelin, a Threcastell.*

Iddo Ef medd'n henaid ninnau;
  Tra b'om ar y ddaear hon.

25 Chwithau *Hannah* ei wraig dirion,
  Cym'rwch air ar hyn o bryd,
Ymddiriedwch yn yr Arglwydd,
  Barnwr gweddwon yw o hyd;
Tad ymddifaid yw ei enw,
  Atto'u gyson ewch a'ch cri.
Cewch attebiad a groesawiad,
  Er mwyn Crist ein Harglwydd ni.

26 Chwithau Blant a'i holl berth'nasau,
  Ymofynwch am Dduw'n dad,
Golud a chyfiawnder Iesu,
  A bendithion mawr y gwa'd;
Aml weddi, dagrau, taerni,
  A fu ganddo 'flaen y Nef,
Am i chwi ei blant anwylaf,
  Gael ei wir adnabod Ef.

27 *Ac* wrth dewi a rhoi fynu,
  D'munwn hefyd am i'r Saith, *Dat.* 1. 4.
I addurno gweithwyr etto,
  Effro, gwrol, gyd a'r gwaith;
Sêr gwreichionllyd, tanbaid, disglair,
  Fo'n melldenu yn y nen,
Yw gwir weddi y caniedydd
  Felly byddo byth *AMEN*.

---

**D I W E D D.**